# Polisi Mynediad Agored Prifysgol Abertawe

Mae polisi'r Deyrnas Unedig ynghylch ymchwil academaidd a ariennir gan gyllid cyhoeddus wedi newid sefyllfa cyhoeddi ymchwil yn y DU yn sylweddol. Er bod llawer i'w drafod o hyd, mae'n hysbys eisoes ei bod yn ofynnol, yn sgîl Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014, roi erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau i'w cadw mewn cronfa sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y gofynion hynny ac yn ceisio casglu, lledaenu a hyrwyddo gwaith academaidd staff y Brifysgol mor eang â phosib.

Mae'r Polisi Mynediad Agored Gwyrdd hwn yn ofyniad ffurfiol o 1 Mawrth 2015 ac mae'n ofynnol i ymchwilwyr gyflwyno testun llawn eu cyhoeddiadau ymchwil i System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol i'w cyhoeddi yng nghronfa ymchwil y Brifysgol, sy'n hygyrch i'r cyhoedd, 'Cronfa'. (Nodyn 1)

Lle bynnag y bo modd, disgwylir i ymchwilwyr sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ymchwil ar gael ar sail Mynediad Agored Gwyrdd. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y sefyllfa'n newid o hyd, mae'n orfodol, i ddechrau, ar gyfer erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau. (Nodyn 2)

Mae System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol yn system fewnol i ganiatáu i'r Brifysgol goladu a gwerthuso ei gwaith ymchwil, a chaiff ei defnyddio i gyflwyno gwaith ymchwil a dogfennau ategol i ymarfer y Fframwaith.  Mae 'Cronfa' yn sicrhau bod gwaith ein hymchwilwyr yn weladwy i'r byd a'i fod yn cael ei fynegrifo gan Google Scholar a pheiriannau chwilio eraill. Mae'n ofynnol cyhoeddi gwaith mewn cronfa ymchwil er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Fframwaith; mae'n gallu cynyddu proffil ymchwil yn y byd academaidd a'r byd ehangach ac mae'n hyrwyddo cydweithredu a dyfyniadau.

Yn ôl Polisi Cronfa Ymchwil y Brifysgol, mae'n ofynnol:

1. Cyflwyno fersiwn derfynol gwaith ymchwil sydd wedi'i adolygu a'i dderbyn gan gymheiriaid i'r System Gwybodaeth Ymchwil ar unwaith pan gaiff ei dderbyn i'w gyhoeddi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am embargo.

2. Mae'n rhaid i awduron ddefnyddio 'Prifysgol Abertawe' yn y gwaith ymchwil wrth nodi eu cyfeiriad.

Mae cymorth wrth ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ymchwil a bodloni'r meini prawf hyn ar gael gan y Llyfrgell, gan gynnwys canllaw i ddefnyddio'r System (PDF). Cysylltwch ag iss-research@abertawe.ac.uk am ragor o wybodaeth.

## Dolenni:

- Y System Gwybodaeth Ymchwil (angen mewngofnodi)
- Cronfa
- Polisi Mynediad Agored EFCW / HEFCE.

## Nodiadau:

**Nodyn 1:** Gall prosiectau a ariennir gan Gynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig wneud cais am gyllid i dalu ffioedd prosesu erthygl mynediad agored aur - gweler y dudalen hon am ragor o fanylion.

**Nodyn 2:** Mae'n ofynnol cyflwyno'r testun llawn yn ôl meini prawf y Fframwaith. Mae'r gwaith ar gael i'r cyhoedd ar unwaith fel arfer, ond gellir parchu cyfnodau embargo rhesymol (12 mis ar y mywaf ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, 24 mis ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau). Yn ôl meini prawf y Fframwaith, ni fydd y mathau o ymchwil y mae'n orfodol eu cyflwyno yn gymwys ar gyfer y Fframwaith os na fodlonir y meini prawf cyflwyno i'w cadw a hygyrchedd.